# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 29 Mai a 5 Mehefin 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Awdurdod Rheilffyrdd Strategol

**Peter Black:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ynghylch rôl yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yng Nghymru? (WAQ24287)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Byddaf yn cael cyswllt rheolaidd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ynglyn â materion rheilffyrdd. Cyfarfûm â Richard Bowker, cadeirydd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, ar 15 Mai. Mae dyfodol y rheilffyrdd yng Nghymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad ac yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod ar ddatblygiadau, gan gynnwys masnachfraint Cymru a'r gororau. Byddwn yn ceisio pwerau i roi canllawiau a chyfarwyddiadau i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein cyfrifoldebau dros drafnidiaeth.

### Trafnidiaeth mewn Ardaloedd Gwledig

**Mick Bates:** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i wella trafnidiaeth mewn ardaloedd

gwledig? (WAQ24454)

**Andrew Davies:** Mae’r fframwaith trafnidiaeth ac adroddiad cyn-Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn diffinio ein hamcanion o ran system drafnidiaeth integredig, effeithlon i Gymru.

Yn 2003-04, dyrannwyd £584,000 i Gyngor Sir Powys mewn grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol i wella gwasanaethau bws a gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol. Mae grantiau sy’n help i wneud iawn am y dreth ar danwydd wedi cael eu rhoi i gwmnïau sy’n darparu trafnidiaeth gymunedol, gan eu galluogi i fuddsoddi rhagor yn eu gwasanaethau. Mae teithio rhad ac am ddim i’r henoed a phobl anabl ar fysiau lleol wedi helpu i ddiogelu’r gwasanaethau sy’n bodoli’n barod, mae wedi galluogi cwmnïau i gyflwyno cerbydau mwy newydd a hygyrch, ac mae wedi arwain at wasanaethau mwy mynych. Yr ydym yn ymchwilio i ehangu’r ddarpariaeth teithio am ddim i’r henoed a phobl anabl i gludiant cymunedol, ac yn datblygu cynllun i warantu teithio am hanner pris i bobl ifanc 16 i 18 oed.

## Economi Trefi Glan Môr

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adfywio economi trefi glan môr yng Nghymru? (WAQ24455)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a’i hasiantaethau allweddol yn annog datblygu economaidd ac adfywio ledled Cymru drwy amryw o fecanweithiau cymorth megis grantiau gwella trefi, grantiau buddsoddiad adfywio a grantiau datblygu twristiaeth. Er enghraifft, dros y pum mlynedd diwethaf, mae Bwrdd Croeso Cymru wedi buddsoddi bron i £18 miliwn mewn trefi glan môr, gyda chostau prosiect llawn o dros £86 miliwn, gan greu neu ddiogelu 1,896 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a chreu buddsoddiad sector preifat o £22.5 miliwn.

Mae Bwrdd Croeso Cymru hefyd yn cadeirio partneriaeth y Môr Glas, sydd wedi sicrhau £1.6 miliwn o gyllid Amcan 1 i helpu i ariannu’r gwaith o ddarparu cyfleusterau a seilwaith o amgylch arfordir Cymru er mwyn bodloni gofynion cynllun gwobr y faner las. Mae’r bartneriaeth eisoes wedi llwyddo i wella ansawdd cynnyrch arfordirol Cymru yn ddramatig, o ran seilwaith ac ansawdd y dwr. O ganlyniad, mae Cymru’n arwain y ffordd yn y DU erbyn hyn o ran gwobrau’r faner las a gwobrau glan môr.

## Ffordd Liniaru’r Rhondda Fach

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y cynlluniau adeiladu ar gyfer ffordd liniaru Porth Rhondda Fach? (WAQ24456)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn buddsoddi dros £30 miliwn yn y datblygiad ffordd hwn, a fydd yn dod â manteision amgylcheddol ac yn gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn disgwyl dechrau adeiladu yn unol â’r cynllun yn ystod blwyddyn ariannol 2004-05, a bydd y gwaith yn cymryd oddeutu dwy flynedd i’w gwblhau.

## Grantiau Gwella Trefi

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weinyddu'r grantiau gwella trefi yng Nghymru? (WAQ24457)

**Andrew Davies:** Awdurdod Datblygu Cymru sy'n ariannu'r cynllun grantiau gwella trefi (gwariant o £15.3 miliwn yn 2002-03) ac mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol ar draws Cymru i gytuno ar ardaloedd sy'n gymwys i gael cymorth grant. Mae'r awdurdodau lleol yn gweithredu fel asiantau i'r cynllun wedyn, yn gwerthuso cynigion o'r sector preifat ac yn gweinyddu grantiau. Mae grantiau gwella trefi yn ariannu prosiectau adfywio trefol, sy'n gwella gwedd ffisegol a pherfformiad yr ardal a dargedir a'r ymdeimlad o hyder sy'n perthyn iddi, gan annog mwy o fuddsoddi o du'r sector preifat a mwy o gyfleoedd cyflogaeth.

## Ffordd Osgoi Hafod yn Abertawe

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ffordd osgoi Hafod yn Abertawe? (WAQ24458)

**Peter Black:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch ffordd osgoi Hafod? (WAQ24459) [R]

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynglyn â ffordd osgoi Hafod, ond yr wyf yn ymwybodol o'r materion dan sylw. Darparwyd cyllid gennym i'r cyngor er mwyn iddo ymgymryd ag astudiaeth annibynnol i'r problemau traffig sy'n gyffredin yn yr ardal a rhoddwyd cymorth gennym tuag at brosiectau yn y cyffiniau, a ddylai fod o fudd i'r ardal. Mae'r gyllideb ar gyfer cynlluniau ffordd mawr wedi cael ei rhwymo'n llwyr erbyn hyn ac nid oes cynigion wedi cael eu gwahodd am gymorth grant trafnidiaeth eleni.

## Rheilffordd Arfordir Cambria

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynllun treialu system reoli traffig rheilffyrdd Ewrop ar reilffordd Arfordir Cambria? (WAQ24460)

**Andrew Davies:** Ar 19 Mai, cyhoeddodd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol fod Arfordir Cambria wedi cael ei ddethol fel safle profi cenedlaethol i'r genhedlaeth newydd o signalau rheilffordd a elwir yn system reoli traffig rheilffyrdd Ewrop, neu ERTMS.

Mae ERTMS yn galluogi trenau i weithredu ar systemau sy'n gydnaws â'i gilydd ar draws ffiniau ('rhyngweithredol') Ewropeaidd, mae'n darparu systemau diogelwch awtomataidd i amddiffyn trenau, a gall gynyddu'r baich y mae'r rhwydwaith yn gallu ymdopi ag ef fel bod modd cynyddu nifer y teithwyr. Bydd yn disodli'r system signalau electronig radio a ddefnyddir ar hyn o bryd, ac yn cynnig newid aruthrol o ran hyblygrwydd i wasanaethau ar rwydwaith Cambria dros y blynyddoedd i ddod.

## Llif y Traffig drwy Dwnelau Brynglas

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lif y traffig drwy dwnelau Brynglas? (WAQ24461)

**Andrew Davies:** Ar y lefelau presennol, rhyw 90,000 o gerbydau y diwrnod yw uchafswm y llif y naill ffordd a'r llall drwy'r twnelau. Pan geir mwy na 65,000 o gerbydau y dydd ar drafffordd ddwy lôn y bernir bod tagfeydd yn digwydd. Ceir cyfnodau, felly—megis oriau brig y bore a min nos ac yn ystod digwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm—pan fo tagfeydd yn y twnelau.

Mae gan ganolfan rheoli traffig Llywodraeth Cynulliad Cymru lawer o brofiad o reoli llif traffig trwm fel hwn, ac mae'n arallgyfeirio traffig ar adegau priodol, yn enwedig yn ystod digwyddiadau, drwy ddefnyddio arwyddion sydd â negeseuon y gellir eu newid. Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth hefyd wrthi'n ystyried opsiynau i wella llif y traffig ar yr M4 yn yr ardal hon ar hyn o bryd fel rhan o astudiaeth i wneud gwell defnydd o'r rhwydwaith presennol. Mae'r astudiaeth i fod i gael ei chwblhau ddiwedd y flwyddyn hon.

## Y Fenni (Diwydiant Newydd)

**David Davies:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda swyddogion Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch denu diwydiant newydd i'r Fenni? (WAQ24462)

**Andrew Davies:** Yr ydym wedi cyflwyno ein hymrwymiad i drawsnewid economi Cymru yn y strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol 'Cymru'n Ennill'. Ei nod yw cynyddu ffyniant yng Nghymru drwyddi draw. O ran cymorth lleol i ardal y Fenni, mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod anghenion economaidd yr ardal yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt, a bod yr ystod ehangaf o raglenni'r awdurdod ar gael i gynorthwyo'r ardal i gynnal a datblygu ei heconomi.

## Band Eang ym Mynwy

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa gynigion sydd ar y gweill i hyrwyddo band eang ym Mynwy? (WAQ24463)

**Andrew Davies:** Yr wyf wrth fy modd fod cyfnewidfa Mynwy yn un o nifer yng Nghymru sydd yn ddiweddar wedi cyrraedd y lefel i symbylu ADSL ac y bydd bellach yn cael ei huwchraddio ym mis Mehefin. Gobeithiaf y bydd nifer dda yn manteisio ar wasanaethau ADSL yn yr ardal ac y bydd llawer o fusnesau a chwsmeriaid preswyl yn dechrau profi potensial band eang a'r gwahaniaeth y gall ei wneud. Mae sir Fynwy hefyd yn elwa o fuddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad yn rhwydwaith digidol Cymru gyfan 2, rhwydwaith y gwasanaeth iechyd, a'r rhwydwaith dysgu gydol oes sy'n darparu mynediad band eang i lyfrgelloedd, ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod

24 o 43 o ysgolion cynradd Mynwy eisoes wedi cael eu cysylltu. Bydd y gwaith o gysylltu pedair ysgol uwchradd y sir yn dechrau yr haf hwn.

Yn ogystal â bod cyfrifoldeb ar y cyflenwyr i hyrwyddo'r ffaith bod eu gwasanaeth ar gael, a manteision y gwasanaeth hwnnw, bydd ystod eang y galw a'r gweithgareddau codi ymwybyddiaeth sy'n gysylltiedig â rhoi rhaglen Band Eang Cymru ar waith yn allweddol er mwyn annog pobl i fanteisio arno. Ymysg y gweithgareddau hyn mae:

- darparu'r cyfle i roi cynnig ar wasanaethau band eang yn y prif ganolfannau cymorth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi'u lleoli ar draws Cymru;
- parhau i weithio gyda busnesau a chyrff perthnasol eraill i ganfod astudiaethau achos sy'n dangos manteision band eang; gellir defnyddio'r astudiaethau hyn ar adegau priodol; a
- gweithgareddau cerbyd Band Eang Cymru Awdurdod Datblygu Cymru, sydd wedi teithio ar draws Cymru yn dangos gwerth band eang a'r gwahaniaeth y gall ei wneud i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.

Yn ychwanegol at yr uchod, caiff rhagor o weithgareddau hyrwyddo eu cyflwyno ynrhan o strategaeth farchnata rhaglen Band Eang Cymru.

## LG Philips Displays

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa ddiweddaraf yn LG Philips Displays yng Nghasnewydd? (WAQ24464)

**Andrew Davies:** Cyfeiriaf yr Aelod at y datganiad a wneuthum ar 22 Mai, a gafodd ei e-bostio at holl Aelodau'r Cynulliad.

## Y Technium yng Ngelli Aur

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y technium yng Ngelli Aur? (WAQ24465)

**Andrew Davies:** Mae Gelli Aur Cyf, y cwmni a sefydlwyd i ddatblygu technium y cyfryngau, wedi cyhoeddi, gyda gofid, ei fod wedi tynnu allan o'r prosiect oherwydd yr ansicrwydd sy'n parhau o fewn yr hinsawdd economaidd ryngwladol ar hyn o bryd. Mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi ymrwymo o hyd i wireddu'r prosiect, gan ychwanegu at y rhwydwaith technium llwyddiannus yn ne-orllewin Cymru, ac mae'n archwilio'r holl opsiynau.

## Amcan 1 yn Abertawe

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar hynt y rhaglen Amcan 1 yn Abertawe? (WAQ24466)

**Andrew Davies:** Mae Amcan 1 yn cael effaith wirioneddol yn Abertawe. Hyd yma, mae dros 60 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo, gan rwymo dros £30 miliwn o grantiau ac mae hynny'n cynrychioli £85 miliwn o fuddsoddi. Mae'r prosiectau hyn, ynghyd â phrosiectau rhanbarthol, wedi datgan bod dros 660 o swyddi crynswth newydd wedi cael eu creu.

## Rhaglen Amcan 1

**Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y rhaglen Amcan 1 yng Nghymru? (WAQ24467)

**Andrew Davies:** Mae'r rhaglen Amcan 1 i'r Gorllewin a'r Cymoedd yn parhau i fynd rhagddi yn dda. Mae dros £460 miliwn o grantiau wedi cael eu rhwymo i dros 700 o brosiectau, yn cynrychioli buddsoddiad o dros £1 biliwn i gyd. Disgwylir i'r prosiectau hyn sydd wedi cael eu cymeradwyo greu dros 40,000 o swyddi crynswth newydd dros y blynyddoedd nesaf.

## Cyfleoedd Newydd i Sir Benfro

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar ymdrech Tîm Cymru i ddod â chyfleoedd newydd i Sir Benfro? (WAQ24468)

**Andrew Davies:** Mae gan Dîm Cymru rôl allweddol i'w chwarae ym menter adfywio Abergwaun a gogledd Sir Benfro a gyhoeddwyd gennyf yn ddiweddar. Mae hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran denu buddsoddiad newydd i nifer o safleoedd, gan gynnwys y ganolfan rheoli perthynas â chwsmeriaid ym Mhont Cleddau a phrosiect y Garreg Las. Gobeithiaf allu cyhoeddi nifer o brosiectau ar gyfer Sir Benfro yn y dyfodol agos y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cefnogi drwy gymorth rhanbarthol dewisol neu grant buddsoddi o du'r Cynulliad.

## Ffatri Wafferi LG yng Nghasnewydd

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o gymorth a ddarparwyd gan y Llywodraeth i ffatri wafferi arfaethedig LG yng Nghasnewydd, ac a oedd y grantiau hyn ar gael i'r cwmnïau dilynol? (WAQ24470)

**Andrew Davies:** O ran swm y cymorth a gynigiwyd gan y Llywodraeth tuag at y prosiect hwn, fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ24485. Cafodd y cynnig o gymorth ei wneud i LG Semicon Wales Ltd, a newidiodd ei enw wedi hynny i Hynix Semiconductor Wales Ltd. Mewn egwyddor, ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd, yr oedd y cymorth ar gael i gwmnïau dilynol. Fodd bynnag, fel y digwyddodd, ni chadarnhaodd yr un cwmni arall ei fod yn barod i fuddsoddi yn y safle.

## LG Philips Displays

**Michael German:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a chynrychiolwyr o LG Philips cyn iddo

gyhoeddi bod 850 o swyddi'n mynd i gael eu colli o'r ffatri yng Nghasnewydd? (WAQ24480)

**Andrew Davies:** Dim yn uniongyrchol, ond gofynnais am i bob ymdrech gael ei gwneud i annog sylfaen fwy amrywiol i'r ffatri yng Nghasnewydd. I'r perwyl hwnnw, cyfarfu uwch swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru â rheolwr gyfarwyddwr (Ewrop) LG Philips Displays ddwywaith, a chyfarfuont â'i gadeirydd a'i brif swyddog gweithredol, Andreas Wente, unwaith i drafod ffatri Casnewydd. Ysgrifennais innau hefyd at Mr Wente yn fuan cyn y cyhoeddiad i'w annog i ailystyried y sefyllfa, ac i'w sicrhau bod pob cymorth posibl yn cael ei roi i'r gweithwyr oedd yn colli eu swyddi.

## LG Philips Displays

**Michael German:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i baratoi pecyn cymorth ar gyfer y gweithwyr hynny a fydd yn colli'u swyddi yn ffatri LG Philips yng Nghasnewydd? (WAQ24481)

**Andrew Davies:** Y dasg gyntaf yw i'r cwmni weithio gydag asiantaethau cymorth Tîm Cymru yn yr ardal i ganfod gwaith arall i'r gweithwyr. Yr ydym eisoes wedi cysylltu â'r prif asiantaethau cymorth dan sylw—Canolfan Byd Gwaith, ELWa, Gyrfa Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd—a chafodd cyfarfod ei gynnal gyda'r cwmni ar 28 Mai i drafod yr anghenion cymorth brys. Ar ôl ysgrifennu at brif weithredwr a chadeirydd LG Philips Displays, yr wyf wedi cael sicrwydd ganddo y bydd y cwmni yn cydweithredu'n llwyr â Thîm Cymru ar fesurau ailgyflogi, yn nhermau cymorth ymarferol ac o ran darparu'r wybodaeth y mae ar yr asiantaethau ei hangen.

## LG Philips Displays

**Michael German:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau ag LG Philips ynghylch lle y bydd yn datblygu ei gynhyrchion technoleg sgrîn fflat? (WAQ24482)

**Andrew Davies:** Yr oedd y trafodaethau y cyfeiriwyd atynt yn WAQ24480 yn cynnwys annog LG Philips Displays i ystyried ychwanegu cynhyrchion eraill o'r fath at y gwaith cynhyrchu tiwbiau llun yng Nghasnewydd. Mae LG Electronics Wales yn cydosod cynhyrchion technoleg sgrîn fflat ar ei safle sy'n ffinio ag LG Philips Displays.

## LG Philips Displays

**Michael German:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau ag LG Philips ynghylch lle y mae'n mynd i ddatblygu ei gynhyrchion digidol gorau? (WAQ24483)

**Andrew Davies:** Yr oeddwn wedi gofyn i'r swyddogion annog LG Philips Displays yn eu trafodaethau i ystyried pob math o gynhyrchion uwch eu gwerth i'w hychwanegu at y gwaith cynhyrchu tiwbiau llun yng Nghasnewydd, a fu'n wynebu cystadleuaeth gref o ran prisiau ac o du sgriniau fflat.

## Pecynnau Cymorth i Weithwyr sy'n Colli eu Swyddi

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog gymharu'r pecyn cymorth i weithwyr unigol ar gyfer y rheini a gollodd eu swyddi yn Corus, Llanwern, a'r pecyn cymorth arfaethedig i'r gweithwyr unigol a fydd yn colli'u swyddi yn LG Philips Displays, Casnewydd? (WAQ24484)

**Andrew Davies:** Y dasg gyntaf inni yw rhoi ymateb Tîm Cymru ar waith ar gyfer y rheini sy'n colli eu swyddi yn LG Philips Displays. Mae cyllid eisoes ar gael o fewn y prif asiantaethau cymorth ar gyfer achosion lle collir llawer o swyddi. Byddwn yn asesu'r angen am adnoddau ychwanegol yng ngoleuni'r atborth a gawn oddi wrth yr asiantaethau. Nid yw felly'n bosibl llunio cymhariaeth uniongyrchol â phecyn Corus, a bydd unrhyw gymorth ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei deilwra ar gyfer y sefyllfa benodol yng Nghasnewydd.

## Grantiau a Gynigiwyd i Safle LG

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog nodi, yn ôl y math o grant, y ffatri, a blwyddyn dyfarnu'r grant, yr holl grantiau sydd wedi cael eu cynnig i'r safle LG cyfan yng Nghasnewydd? (WAQ24485)

**Andrew Davies:** Yn 1997, cynigiodd y Swyddfa Gymreig fel yr oedd ar y pryd becynnau gwerth cyfanswm o £129.5 miliwn i LG Electronics Wales ac £117.5 miliwn i LG Semicon Wales. Yr oedd y pecyn cyfun o £247 miliwn yn cynnwys:

- cymorth rhanbarthol dewisol o £69.5 miliwn;
- £10 miliwn o waith seilwaith wedi'i ariannu gan Awdurdod Datblygu Cymru;
- grantiau eiddo o £118.9 miliwn gan y WDA;
- cymorth o £17 miliwn i ddatblygu'r safle;
- tir gwerth £14.2 miliwn; a
- chymorth gwerth hyd at £17.6 miliwn gan y cyngor hyfforddiant a menter.

Disgwylid i'r prosiectau olygu buddsoddiad o £1.6 biliwn, gan greu dros 6,000 o swyddi. Yr oedd dadansoddiadau mwy manwl yn destun cytundebau cyfrinachedd masnachol gyda'r cwmnïau.

## Grantiau Llywodraeth a Dalwyd i LG

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog nodi faint o grant y Llywodraeth a dalwyd i gwmnïau ar safle LG cyfan yng Nghasnewydd yn ôl y math o grant, y ffatri a blwyddyn dyfarnu'r grant? (WAQ24486)

**Andrew Davies:** Mae manylion grantiau a dalwyd yn cael eu hystyried yn gyfrinachol yn fasnachol, ond ni thalwyd y £247 miliwn a oedd wedi'i gynnig i gyd. Er enghraifft, ni thalwyd unrhyw gymorth rhanbarthol dewisol mewn perthynas â phrosiect LG Semicon Wales.

## Arian Grant y Gellir ei Adennill a Dalwyd i LG

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa arian grant y gellir ei adennill ar gyfer pob un o’r ffatrïoedd ar safle gwreiddiol LG yng Nghasnewydd? (WAQ24487)

**Andrew Davies:** Mae trefniant a gwblhawyd yn ddiweddar i adennill buddsoddiad gwerth £36.5 miliwn o eiddo’r sector cyhoeddus mewn perthynas â’r safle lled-ddargludyddion (Hynix Semiconductor Wales Ltd). O ran y safle electroneg, byddid fel arfer yn cydnabod y swyddi sy’n parhau yn LG Electronics Wales wrth adennill grantiau. Mae’r cytundebau yn ymwneud â grantiau eiddo a chymorth rhanbarthol dewisol yn cynnwys darpariaethau adennill penodol.

### Cymorth Grant y Gellir ei Adennill wrth LG Philips Displays

**Michael German:** Faint o gymorth grant sy’n adenilladwy wrth y ffatri LG Philips sydd yn awr yn bwriadu dileu swyddi 850 o’i gweithwyr? (WAQ24488)

**Andrew Davies:** Bydd colli swyddi yn LG Philips Displays yn effeithio ar y cytundebau grant y daethpwyd iddynt gydag LG Electronics Wales, ac mae trafodaethau gyda’r olaf yn mynd rhagddynt. Yn erbyn y cefndir hwn, nid yw’n briodol datgelu’r symiau sy’n cael eu trafod. Byddaf yn gwneud datganiad ar yr adeg briodol.

### Dyfodol Diwydiant Gweithgynhyrchu

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol diwydiant gweithgynhyrchu Cymru? (WAQ25682)

**Andrew Davies:** Mae’r diwydiant gweithgynhyrchu wedi wynebau anawsterau dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae’n sector dynamig iawn gyda nifer fawr o swyddi yn cael eu creu a’u colli bob blwyddyn. Dengys y ffigurau diweddaraf fod 24,866 o swyddi wedi cael eu creu yn 2000-01 a bod 30,060 wedi cael eu colli. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llwyr ymrwymo i adeiladu ar ein cryfderau ym maes gweithgynhyrchu, fel a nodwyd yn ein strategaeth ddatblygu economaidd ‘Cymru’n Ennill’.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a’r WDA nifer o raglenni penodol i helpu’r sector gweithgynhyrchu. Er enghraifft, galluogodd rhaglen Sbardun Cymru y cwmnïau oedd yn cymryd rhan i wneud gwelliannau ariannol i’w llinell waelod, a hynny’n werth £79 miliwn yn y 18 mis cyntaf. Yr ydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â fforymau sy’n cynrychioli sectorau pwysig yn y diwydiant gweithgynhyrchu megis diwydiannau cerbydau, awyrofod ac electroneg.

Mae ‘Cymru o Blaid Arloesi’, cynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar arloesi, yn cynnig cymorth rhagweithiol i gynorthwyo gweithgynhyrchwyr gydag arloesi, dylunio, rheoli a sgiliau. Mae’r rhain yn cynnwys y canolfannau rhagoriaeth i dechnoleg a chydweithio diwydiannol, y gwasanaeth cwnselwyr arloesi a thechnoleg, a Dylunio Cymru.

Yn 2002-03, gwnaed 139 cynnig o gymorth rhanbarthol dewisol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gwerth £79.5 miliwn, i gynorthwyo prosiectau gweithgynhyrchu yng Nghymru. Yr oedd disgwyl i'r rhain greu neu ddiogelu 6,596 o swyddi.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Bysiau Ysgol Pwrpasol

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch cyflwyno bysiau ysgol pwrpasol yng Nghymru? (WAQ24241)

**Peter Black:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried cynorthwyo awdurdodau addysg lleol i ariannu'r broses o gyflwyno bysiau ysgol pwrpasol yng Nghymru? (WAQ24242)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Dim. Wrth ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim i'r ysgol ac yn ôl adref, rhaid i'r awdurdodau addysg lleol sicrhau bod disgyblion yn teithio yn ddiogel ac yn gyfforddus o fewn rheswm. Caiff cludiant ei ddarparu'n aml drwy gontractau gyda chwmnïau bysiau masnachol, a rhaid i'r awdurdodau addysg lleol sicrhau bod cerbydau priodol yn cael eu darparu. Mae'n ofynnol i'r cwmnïau gynnal eu gwasanaethau yn unol â deddfwriaeth diogelwch y ffyrdd.

Mae'r Adran Drafnidiaeth yn monitro sawl cynllun peilot yn ymwneud â bysiau ysgol melyn pwrpasol, gan gynnwys un sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cyflwynasant 10 bws melyn i mewn i'r gwasanaeth ym mis Mehefin 2002. Bydd y monitro yn edrych ar lwyddiant o ran lleihau nifer y siwrneiau i'r ysgol mewn car a'r record ddiogelwch o'i cymharu â bysiau confensiynol. Bydd y canlyniadau yn help i lywio penderfyniadau ynglyn â defnyddio bysiau ysgol pwrpasol.

### Hyfforddiant Amaethyddol ac ar y Tir (ELWa)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gefnogi'r galw am i'r cyrsiau amaethyddol a gynhwysir yn nogfen ddiweddar ELWa barhau i gael eu cynnig yn y pum coleg presennol, yn hytrach na'r ddau goleg a awgrymir? (WAQ24432)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddogfen ELWa sy'n awgrymu y bydd rhai cyrsiau amaethyddol yn cael eu darparu mewn dau goleg yn unig yn hytrach na'r pum coleg presennol? (WAQ24433)

**Jane Davidson:** Mae darparu hyfforddiant amaethyddol ac ar y tir yng Nghymru wedi bod yn destun ymgynghoriad gan y Cyngor Cenedlaethol—ELWa, ac mae newydd ddod i ben. Bydd unrhyw gynigion

i ad-drefnu'r ddarpariaeth hon a awgrymir gan y cyngor yn sgîl hynny yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru maes o law.

## Hyfforddiant Amaethyddol ac ar y Tir (ELWa)

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael mewn perthynas â dogfen ELWa sy'n awgrymu y bydd rhai cyrsiau amaethyddol yn cael eu darparu mewn dau goleg yn hytrach na'r pum coleg presennol? (WAQ24434)

**Jane Davidson:** Ar 18 Mawrth 2003, derbyniais lythyr oddi wrth Karen Sinclair AC ynglyn â'r 'Adolygiad o Hyfforddiant ac Addysg Galwedigaethol ar gyfer y Sectorau Amaeth a Thir yng Nghymru' gan y Cyngor Cenedlaethol-ELWa.

## Dogfen Gynghori ELWa

**Nick Bourne:** Pa ymgynghori, ar bob lefel, a wnaed wrth baratoi dogfen ELWa sy'n awgrymu y bydd rhai cyrsiau amaethyddol yn cael eu darparu mewn dau goleg yn hytrach na'r pum coleg presennol? (WAQ24435)

**Jane Davidson:** Gan mai mater gweithredol i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yw hwn, byddaf yn gofyn i'r prif weithredwr dros dro roi ateb uniongyrchol ichi. Caiff copi o'i ateb ei roi yn y Llyfrgell wedyn.

## Contract rhwng ELWa a Learn to Live Cyf

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r contract a arwyddwyd gan ELWa a Learn to Live Cyf, at y diben o ddatblygu caffi rhyngweithiol a modiwlau hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc? (WAQ24473)

**David Davies:** A yw'r Gweinidog wedi gweld neu a yw wedi gofyn am weld y contract a wnaed rhwng ELWa a Learn to Live Cyf, at y diben o ddatblygu caffi rhyngweithiol a modiwlau hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc? (WAQ24474)

**David Davies:** A yw'r Gweinidog wedi trafod cynnwys y contract a wnaed rhwng ELWa a Learn to Live Cyf, at y diben o ddatblygu caffi rhyngweithiol a modiwlau hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc gydag uwch swyddogion ELWa? (WAQ24475)

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog restru'r cyfarpar a brynwyd gan Learn to Live Cyf gyda chyllid a ddarparwyd gan ELWa, a chadarnhau a oedd y cyfarpar yn cynnwys i) offer DVD, ii) goleuadau stiwdio, iii) sgriniau plasma? (WAQ24476)

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw'n bolisi i roi cymorth i ymgorffori offer DVD,

goleuadau stiwdio a sgriniau plasma mewn hyfforddiant ar gyfer dysgwyr ar ôl 16 oed? (WAQ24477)

**Jane Davidson:** Materion gweithredol i'r cyngor yw trefniadau cytundebol rhwng y Cyngor Cenedlaethol—ELWa a'i ddarparwyr dysgu, ac nid yw Gweinidogion yn ymyrryd ynddynt.

Mae'r Cynulliad wedi sefydlu gweithdrefnau priodol a thryloyw i adolygu'r ffeithiau a'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau archwilio i mewn i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, ac mae'r rheini yn ddiduedd, yn deg ac yn gymesur. Mae'r prosesau hyn yn fwy trylwyr na'r rhai oedd yn cael eu harfer cyn sefydlu'r Cynulliad, ac maent yn cynnwys archwiliad ac adroddiad gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru, gwrandawiad gerbron Pwyllgor Archwilio ac adroddiad ar ôl i'r aelodau ystyried y mater, ac ymateb gan Lywodraeth y Cynulliad o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad y mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyhoeddi ei gasgliadau. Ni ellir cynnal unplygrwydd y prosesau hyn os bydd dadansoddi cynamserol a thameidiog yn gwneud niwed i adroddiad cynhwysfawr sy'n nodi'r ffeithiau. Yr wyf yn dal yn barod i ymateb i gwestiynau neu sylwadau a allai godi yng ngoleuni'r ymchwiliad a'r adroddiad archwilio llawn, a hynny'n unol â'r amserlen sydd wedi ei phennu.

Gan fod y cwestiynau hyn yn cyfeirio at faterion gweithredol byddaf yn eu cyfeirio at brif weithredwr dros dro y cyngor ac yn gofyn iddo ysgrifennu atoch yn uniongyrchol. Caiff copi o'i ateb ei roi yn y Llyfrgell wedyn.

## ELWa

**David Davies:** A oes gan y Gweinidog hyder llwyr ym mhrif weithredwr ELWa? (WAQ24478)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn llwyr gefnogi prif weithredwr dros dro y Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn ei ymdrechion i wella trefniadau rheoli a phrosesau busnes y cyngor, ac i adeiladu ar yr hyn y mae'r cyngor wedi ei gyflawni.

## Rhaglen Beilot Bagloriaeth Cymru (Arian)

**Jocelyn Davies:** Faint o arian sydd wedi'i roi i'r sefydliadau hynny sy'n cymryd rhan yn rhaglen beilot bagloriaeth Cymru at y diben o ddarparu gwasanaeth adeg absenoldeb y staff ac amser datblygu? (WAQ24490)

**Jane Davidson:** Mae Cyd-bwyllgor Addysg Cymru yn cynnal rhaglen beilot bagloriaeth Cymru o dan gontract i Lywodraeth y Cynulliad. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-03, £110,227 oedd cyfanswm yr arian a dalwyd gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru i'r canolfannau peilot er mwyn rhyddhau athrawon. O'r swm hwn, yr oedd £27,661 er mwyn rhyddhau athrawon i fynychu digwyddiadau hyfforddiant mewn swydd, ac yr oedd £82,566 i ryddhau athrawon ar gyfer cyfarfodydd cynllunio mewnol.

## Rhaglen Beilot Bagloriaeth Cymru (Gweithdrefn Archwilio)

**Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y weithdrefn archwilio ar gyfer rhaglen beilot Bagloriaeth Cymru? (WAQ24491)

**Jane Davidson:** Mae contract y Cynulliad gyda Chyd-bwyllgor Addysg Cymru yn agored i gael ei archwilio gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru. Mae gweithdrefnau archwilio mewnol ac allanol y pwyllgor mewn grym. PricewaterhouseCoopers yw ei archwilwyr allanol.

## Datblygu Arloesedd

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl brosiectau a ariannwyd gan neu sydd i gael eu hariannu gan y gronfa datblygu arloesedd, ynghyd â chyfanswm yr ymrwymiadau ariannol a swm unrhyw ragdaliad a wnaed? (WAQ24497)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl brosiectau a ariannwyd gan neu sydd i gael eu hariannu gan y rhaglen datblygu arloesedd, ynghyd â chyfanswm yr ymrwymiadau ariannol a swm unrhyw ragdaliadau a wnaed? (WAQ24498)

**Alun Cairns:** Pwy ofynnodd neu awgrymodd bod y cyllid ar gyfer prosiect grwp cyfryngau Avanti/ Learn to Live Cyf yn cael eu talu ymlaen llaw? (WAQ24499)

**Alun Cairns:** A fyddai'r Gweinidog gystal â rhestru, ynghyd â'r dyddiadau cymeradwyo, yr holl brosiectau a ariannwyd gan neu sydd i gael eu hariannu o dan y gronfa datblygu arloesedd gan ELWa? (WAQ24507)

**Alun Cairns:** A fyddai'r Gweinidog gystal â rhestru, ynghyd â'r dyddiadau cymeradwyo, yr holl brosiectau a ariannwyd gan neu sydd i gael eu hariannu o dan y rhaglen datblygu arloesedd gan ELWa? (WAQ24508)

**Alun Cairns:** O ba gronfa y cafodd y prosiect Learn to Live Cyf ei ariannu gan ELWa? (WAQ24509)

**Jane Davidson:** Yn ôl memorandwm ariannol y Cyngor Cenedlaethol—ELWa mae'n rhaid gwrthsefyll gwneud taliadau ymlaen llaw fel arfer. Mewn achosion eithriadol lle teimlir y gallai rhyw daliad fod yn angenrheidiol, rhaid dilyn yr egwyddorion a nodir yng nghanllawiau'r Trysorlys ar Gyfrifydda gan Lywodraeth. Nid wyf fi ar unrhyw adeg wedi cael fy hysbysu am unrhyw gynnig na bwriad gan y cyngor i wneud unrhyw daliadau o'r fath ymlaen llaw, ac ni fûm yn ymwneud ychwaith â phenderfynu ar y trefniadau gweithredol ar gyfer prosiectau'r cyngor.

Mae'r Cynulliad wedi sefydlu gweithdrefnau priodol a thryloyw i adolygu'r ffeithiau a'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau archwilio i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, ac mae'r rheini yn ddiduedd, yn deg ac yn gymesur. Mae'r prosesau hyn yn fwy trylwyr na'r rhai oedd yn cael eu harfer cyn sefydlu'r Cynulliad, ac maent yn cynnwys archwiliad ac adroddiad gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru, gwrandawiad gerbron Pwyllgor Archwilio ac adroddiad ar ôl i'r aelodau ystyried y mater, ac

ymateb gan Lywodraeth y Cynulliad o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad y mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyhoeddi ei gasgliadau. Ni ellir cynnal unplygrwydd y prosesau hyn os bydd dadansoddi cynamserol a thameidiog yn gwneud niwed i adroddiad cynhwysfawr sy'n nodi'r ffeithiau. Yr wyf yn dal yn barod i ymateb i gwestiynau neu sylwadau a allai godi yng ngoleuni'r ymchwiliad a'r adroddiad archwilio llawn, a hynny'n unol â'r amserlen sydd wedi ei phennu.

Yn unol â'i ddirprwyaethau, sicrhaodd y cyngor gytundeb y Cynulliad i'r prosiectau a'r cynlluniau canlynol o dan y rhaglen arloesi a datblygu, sy'n ymgorffori cronfa arloesi a datblygu y cyngor.

| **Teitl y Prosiect** | **Cyfraniad y Cyngor Cenedlaethol—ELWa** | **Dyddiad Cymeradwyo** |
|---|---|---|
| Prosiect Sirius | 145,115 | 03/09/2001 |
| Rhaglen datblygu arweinwyr tîm (sectorau electroneg a cherbydau) | 55,600 | 06/09/2001 |
| Cymunedau sy'n mentro | 100,000 | 07/11/2001 |
| Datblygu'r sector gwirfoddol | 96,510 | 06/11/2001 |
| Menter y sector gwirfoddol | 250,000 | 11/10/2001 |
| TGCh/MD i ffermwyr | 986,000 | 13/11/2001 |
| Ymateb i golli swyddi | 480,000 | 02/11/2001 |
| Addysg berthnasol i waith (sectorau) | 611,355 | 11/12/2001 |
| Datblygu cymunedol | 90,000 | 07/11/2001 |
| Sgiliau ar gyfer busnes | 150,000 | 11/12/2001 |
| Sgiliau ar gyfer cyflogaeth | 150,000 | 11/12/2001 |
| Prosiectau cymunedol a gwirfoddol arloesol | 100,000 | 23/11/2001 |
| Prosiect datblygu trefi Gogledd Cymru (cynnig £300,000 wedi'i gyfyngu i'r cyfraniad a gymeradwywyd gan y cyngor) | 100,000 | 23/11/2001 |
| Sbardun Cymru | 497,653 | 21/12/2001 |
| Prosiectau Cyswllt Addysg Busnes a gwella cyfarpar | 100,000 | 11/12/2001 |
| Grwpiau cysylltiol | 70,000 | 04/12/2001 |
| CITB—hyfforddiant goruchwylio i reolwyr | 100,000 | 11/12/2001 |
| Y ffatri bop | 4,000,000 | 15/01/2002 |
| Ehangu cyfleoedd Cymraeg a dwyieithog | 194,750 | 08/01/2002 |

| | | |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth y Tywysog, Cymru: hybu datblygiad pobl ifanc | 105,150 | 14/01/2002 |
| Sector peirianneg gogledd Cymru—gwariant cyfalaf AB | 3,525,000 | 23/01/2002 |
| E-ddysgu yng ngogledd Sir Benfro | 704,500 | 23/01/2002 |
| Cyswllt Ffermio | 500,000 | 14/01/2002 |
| Y profiad cynaliadwy | 967,600 | 22/02/2002 |
| Canolfan ragoriaeth mewn sgiliau cigyddiaeth | 250,000 | 15/01/2002 |
| DERA Aberporth (QinetiQ) | 881,250 | 04/02/2002 |
| Prynu wrth weld – her wythnos adolygu | 130,000 | 04/02/2002 |
| Cymru Prosper Wales | 185,000 | 19/02/2002 |
| Cymorth sgiliau allweddol SHARE | 54,780 | 04/05/2002 |
| Y sector gwirfoddol | 182,936 | 04/05/2002 |
| SCT Oedolion (NVQs) | 66,000 | 12/08/2002 |
| Hyfforddiant GWINTO | 78,350 | 12/08/2002 |
| Caffael prosiect busnes (Aiwa i AXIOM) | 200,000 | 19/08/2002 |
| WASP—Darparwr gwasanaeth cymwysiadau Cymraeg | 172,688 | 06/09/2002 |
| Canolfan adnoddau dysgu Coleg Aberdâr | 170,000 | 29/10/2002 |
| Ymdrin drwy bartneriaeth â datblygu'r gweithlu | 154,000 | 11/11/2002 |
| Coleg technegol e-sgiliau i'r Cymoedd dwyreiniol | 120,000 | 13/01/2003 |
| Coleg technegol e-sgiliau i ddwyrain Cymru | 60,000 | 13/01/2003 |
| Llwyfan dysgu AB i'r sector preifat | 60,000 | 28/01/2003 |
| REACT | 104,545 | 28/01/2003 |
| INCLUDE-prosiectau addysg ôl-16 de ddwyrain Cymru | 200,000 | 09/05/2003 |

| **Teitl y Cynllun** | **Cyfraniad y Cyngor Cenedlaethol—ELWa** | **Dyddiad Cymeradwyo** |
|---|---|---|
| Ymateb cyflym i golli swyddi | 884,500 | 02/11/2001 |
| Cynllun cyfrifon cwmnïau (costau 2001-02) | 781,250 | 11/12/2001 |
| Cynllun buddsoddi cyfalaf | 20,599,000 | 25/01/2002 |
| Y gronfa her i ddysgu | 28,500,000 | 31/07/2002 |
| Cynllun cyfrifon cwmnïau (costau 2002-03) | 1,600,000 | 24/10/2002 |
| Cynllun systemau gwybodaeth reoli | 1,000,000 | 21/03/2003 |

Yn ogystal, cymeradwyodd y Cynulliad y prosiectau canlynol fel rhan o gynllun gweithredol y cyngor ar gyfer 2001-02:

| **Teitl y Prosiect** | **Cyfraniad y Cyngor Cenedlaethol—ELWa** | **Dyddiad Cymeradwyo** |
|---|---|---|
| Cylch sgiliau | 15,000 | 04/09/2001 |
| Y Faenol Cyf | 25,000 | 04/09/2001 |
| Hyfforddiant technegwyr i oedolion | 14,000 | 04/09/2001 |
| Clybiau Sadwrn | 120,000 | 04/09/2001 |
| Prynu wrth weld/her WWTEC (hyd at Fedi 2001) | 12,000 | 04/09/2001 |
| AU a Busnesau Bach a Chanolig eu Maint | 50,000 | 04/09/2001 |
| Hyfforddiant sgiliau peirianneg Gorllewin Cymru | 70,000 | 04/09/2001 |
| Canolfan cwricwlwm adeiladu | 15,500 | 04/09/2001 |
| Sport train Wales | 35,000 | 04/09/2001 |
| XL Cymru | 36,000 | 04/09/2001 |
| Sbardun gorllewin Cymru | 10,000 | 04/09/2001 |
| NVQ yng nghyfnod allweddol 4 | 25,000 | 04/09/2001 |
| Y fagloriaeth ryngwladol | 40,000 | 04/09/2001 |
| Prynu wrth weld | 90,000 | 04/09/2001 |
| Cynllun addysg peirianneg | 33,000 | 04/09/2001 |
| Rhaglen hybu MA | 18,000 | 04/09/2001 |
| Blwyddyn mewn diwydiant | 7,800 | 04/09/2001 |
| Cydlynydd sgiliau allweddol Tor-faen | 16,000 | 04/09/2001 |
| Atodiad peilot BAMC | 3,500 | 04/09/2001 |
| Technoleg yn sgiliau allweddol 3 | 3,000 | 04/09/2001 |
| Gwyddoniaeth yn sgiliau allweddol 3 | 3,000 | 04/09/2001 |
| Her DARA | 2,000 | 04/09/2001 |
| Darlithoedd gofodwyr | 2,000 | 04/09/2001 |
| Haf y gofod | 5,000 | 04/09/2001 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a’r Rhondda | 20,000 | 04/09/2001 |

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth TGAU a GNVQ galwedigaethol | 21,000 | 04/09/2001 |
| Her tîm peirianneg | 3,000 | 04/09/2001 |
| Technogemau/Robotryfeloedd | 6,000 | 04/09/2001 |
| Cyfrannu at addysg pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd drwy'r rhyngrwyd (canolfan alwadau) | 5,000 | 04/09/2001 |
| Technoleg e-sgiliau i ddwyrain Cymru | 40,000 | 04/09/2001 |
| Fiskars | 36,500 | 04/09/2001 |
| Datblygu strategaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu rhaglen e-ddysgu ar gyfer y sector electroneg | 10,000 | 04/09/2001 |
| Datblygu gwefan sector | 5,000 | 04/09/2001 |
| Cynnal mecanwaith cyfathrebu | 10,000 | 04/09/2001 |
| Rheolaeth o fewn technoleg, sgiliau allweddol 2 | 3,000 | 04/09/2001 |
| Rhaglen hybu technoleg | 15,000 | 04/09/2001 |
| Get SET/BET/SET | 12,000 | 04/09/2001 |
| Clwb peirianwyr ifanc | 4,500 | 04/09/2001 |
| Canolfan cwricwlwm CITB | 22,000 | 04/09/2001 |
| SET Clybiau Sadwrn | 47,000 | 04/09/2001 |
| Byngalo Bayer | 3,000 | 04/09/2001 |
| Diwrnodau technoleg | 4,000 | 04/09/2001 |
| NVQ 2 peirianneg ar y cyd rhwng addysg a diwydiant | 8,000 | 04/09/2001 |
| Cymorth cyflogwyr tuag at y cwricwlwm | 11,000 | 04/09/2001 |
| Theatr gwyddoniaeth | 22,900 | 04/09/2001 |
| Gweithdai rhyngweithiol | 2,250 | 04/09/2001 |
| Wythnos gwyddoniaeth | 5,100 | 04/09/2001 |
| Archwilio trydan | 1,500 | 04/09/2001 |
| Ysgogi gwyddoniaeth | 4,000 | 04/09/2001 |
| Microlygoden/llygoden finimol | 6,700 | 04/09/2001 |
| CREST | 6,750 | 04/09/2001 |
| Cipolwg ar beirianneg i ferched/peirianwyr ifanc | 3,000 | 04/09/2001 |
| Gwobrau arloesi i fyfyrwyr | 12,000 | 04/09/2001 |
| Prif wobrau arloesi | 9,000 | 04/09/2001 |

| | | |
|---|---|---|
| Menter datblygu'r gweithlu | 60,000 | 04/09/2001 |
| Ymweliadau â chwmnïau a gweithleoedd | 7,510 | 04/09/2001 |
| Gwyl wyddoniaeth ryngwladol Wrecsam | 10,000 | 04/09/2001 |
| Fforwm economaidd de-orllewin Cymru | 3,250 | 04/09/2001 |
| British Aerospace | 1,354,894 | 04/09/2001 |
| Comisiwn ffilm gogledd Cymru | 10,000 | 04/09/2001 |
| Arloesi i lwyddo | 8,795 | 04/09/2001 |
| Fforwm economaidd de-ddwyrain Cymru | 10,000 | 04/09/2001 |
| Dosbarthu Wilkinson | 20,000 | 04/09/2001 |
| Menter canolfannau galwadau Caerdydd a Chasnewydd | 30,000 | 04/09/2001 |
| Ymdrin â galwadau a rhedeg canolfan o dan gontract, cymorth i fynd â sgiliau i mewn i waith | 75,000 | 04/09/2001 |
| Cymhelliad Harman | 13,000 | 04/09/2001 |
| Rhwydwaith hyfforddi'r awdurdodau lleol | 25,000 | 04/09/2001 |
| Comisiwn ffilm de Cymru | 10,000 | 04/09/2001 |
| Y Cynllun Croeso | 95,000 | 04/09/2001 |
| Prosiect React/DAWN | 50,000 | 04/09/2001 |
| Agoriad | 40,000 | 04/09/2001 |
| Prosiect maes cymunedol Blaenau Gwent | 40,000 | 04/09/2001 |
| Datblygu/adfywio cymunedol | 250,000 | 04/09/2001 |
| Prosiect maes cymunedol RCT | 26,500 | 04/09/2001 |
| Bwrsariaethau dysgu i reolwyr | 43,605 | 04/09/2001 |
| Arloesi i lwyddo | 4,702 | 04/09/2001 |
| Rheolwyr sy'n llwyddo | 17,566 | 04/09/2001 |
| Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant i bobl fu'n ddi-waith am gyfnod hir | 31,227 | 04/09/2001 |

Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion y rhaglen a byddaf felly yn gofyn i'r prif weithredwr dros dro ateb yn uniongyrchol i chi ar y materion hyn. Caiff copi o'i ateb ei roi yn y Llyfrgell wedyn.

**Grwp Cyfryngau Avanti/Learn To Live Cyf**

**Alun Cairns:** Pa systemau diogelwch oedd yn eu lle i gynnal diddordeb y cyhoedd yn y cyllid a roddwyd ymlaen llaw i grwp cyfryngau Avanti/Learn to Live Cyf neu mewn unrhyw gyfalaf a wariwyd ar gyfarpar? (WAQ24500)

**Alun Cairns:** Beth yw’r targed o ran nifer yr hyfforddeion y mae’n rhaid i Learn to Live Cyf eu hyfforddi ac erbyn pa bryd y mae’n rhaid iddynt wneud hynny er mwyn cwrdd â’u hymrwymiadau ym mhrosiect Learn to Live Cyf/y Ffatri Bop? (WAQ24501)

**Alun Cairns:** Pa ganiatâd yr oedd ei angen cyn y gallai grwp cyfryngau Avanti neu Learn to Live Cyf hawlio unrhyw swm o’r rhagdaliad o £4 miliwn? (WAQ24502)

**Alun Cairns:** Ym mha ffordd y cafodd y rhagdaliad o £4 miliwn a roddwyd i’r Ffatri Bop/Learn to Live Cyf ei fonitro? (WAQ24503)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi rhestr o’r hyn sydd wedi’i dalu amdano hyd yma allan o’r £4 miliwn o ragdaliad a roddwyd i brosiect Learn to Live Cyf? (WAQ24504)

**Alun Cairns:** O’r £4 miliwn a dalwyd i grwp cyfryngau Avanti/y Ffatri Bop ar gyfer y prosiect Learn to Live, faint ohono sydd wedi’i ad-dalu i’r Cynulliad neu i’r corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (WAQ24505)

**Alun Cairns:** A fyddai’r Gweinidog gystal â chyhoeddi’r contractau sydd wedi golygu bod prosiect y Ffatri Bop/Learn to Live Cyf wedi cael eu cefnogi? (WAQ24506)

**Jane Davidson:** Materion gweithredol i’r cyngor yw trefniadau cytundebol rhwng y Cyngor Cenedlaethol—ELWa a’i ddarparwyr dysgu a’r rheolaeth ariannol dros y trefniadau cytundebol hynny, ac nid yw Gweinidogion yn ymyrryd ynddynt.

Mae’r Cynulliad wedi sefydlu gweithdrefnau priodol a thryloyw i adolygu’r ffeithiau a’r argymhellion sy’n deillio o ymchwiliadau archwilio i mewn i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, ac mae’r rheini yn ddiduedd, yn deg ac yn gymesur. Mae’r prosesau hyn yn fwy trylwyr na’r rhai oedd yn cael eu harfer cyn sefydlu’r Cynulliad, ac maent yn cynnwys archwiliad ac adroddiad gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru, gwrandawiad gerbron Pwyllgor Archwilio ac adroddiad ar ôl i’r aelodau ystyried y mater, ac ymateb gan Lywodraeth y Cynulliad o fewn 30 diwrnod i’r dyddiad y mae’r Pwyllgor Archwilio yn cyhoeddi ei gasgliadau. Ni ellir cynnal unplygrwydd y prosesau hyn os bydd dadansoddi cynamserol a thameidiog yn gwneud niwed i adroddiad cynhwysfawr sy’n nodi’r ffeithiau. Yr wyf yn dal yn barod i ymateb i gwestiynau neu sylwadau a allai godi yng ngoleuni’r ymchwiliad a’r adroddiad archwilio llawn, a hynny’n unol â’r amserlen sydd wedi ei phennu.

Gan fod y cwestiynau hyn yn cyfeirio at faterion gweithredol, fe’u cyfeiriaf at brif weithredwr dros dro y cyngor gan ofyn iddo ysgrifennu atoch yn uniongyrchol. Caiff copi o’i ateb ei roi yn y Llyfrgell wedyn.

## Sgiliau Darllen

**David Davies:** A roddir prawf i blant saith oed yng Nghymru ar eu sgiliau darllen, a phwy sy'n cael gweld y canlyniadau? (WAQ24517)

**Jane Davidson:** Yr ydym wedi dod â'r profion i blant saith oed i ben yng Nghymru. Fodd bynnag, mae athrawon yn gwneud asesiad o'r hyn y mae pob plentyn wedi ei ddysgu yn y pynciau craidd. Caiff gallu darllen pob plentyn ei asesu fel rhan o'r asesiad Cymraeg, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac o'r asesiad Saesneg mewn ysgolion eraill. Mae rhieni yn derbyn canlyniadau eu plentyn hwy yn yr adroddiad blynyddol a baratoir gan yr athrawon. Caiff canlyniadau'r ysgol drwyddynt draw eu cyhoeddi yn ei phrosbectws ac yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr, ac mae'r canlyniadau i bob awdurdod addysg lleol ac i Gymru yn cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad.

## Cydaddoli

**David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â chydaddoli? (WAQ24518)

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog restru'r ysgolion nad ydynt yn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â chydaddoli? (WAQ24519)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn disgwyl i bob ysgol gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y gyfraith. Oni bai fod rhiant yn gwneud cais fel arall, dylai pob disgybl cofrestredig sy'n mynychu ysgol a gynhelir gymryd rhan yn cydaddoli. Dyletswydd y pennaeth yw sicrhau hyn. Rhaid hefyd i'r corff llywodraethu a'r awdurdod addysg lleol arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau hyn.

Wrth arolygu ysgolion a gynhelir, mae Estyn yn adrodd am ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys ansawdd a safon y ddarpariaeth gydaddoli a chyfraniad cydaddoli tuag at ddatblygiad y disgyblion. Caiff unrhyw ddiffygion yn y maes hwn, gan gynnwys peidio â chydymffurfio â'r gofynion statudol, eu nodi yn yr adroddiad arolygu o dan y materion y mae angen gweithredu arnynt. Mae'n ofynnol wedyn i'r ysgol ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion sydd wedi'u nodi, a bydd yr awdurdod addysg lleol yn monitro'r cynnydd yn hynny o beth.

Nid oes gennyf bolisi o enwi a chodi cywilydd ar ysgolion. Ond gallaf gadarnhau bod yr ysgol y cyfeirir ati yn adroddiad y prif arolygydd am 2001-02 fel ysgol nad yw'n bodloni'r gofynion statudol o ran cydaddoli wedi paratoi cynllun i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Mae'r awdurdod addysg lleol hefyd wedi cadarnhau bod camau wedi cael eu cymryd erbyn hyn i roi'r mesurau a nodwyd yn y cynllun ar waith. Mae systemau yn bodoli, felly, i ganfod unrhyw ddiffygion a sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd.

## Dysgu Plant i Ddarllen

**David Davies:** I ba raddau y defnyddir y system ffonig mewn ysgolion yng Nghymru? (WAQ24520)

**David Davies:** Pa system a ddefnyddir yng Nghymru i ddysgu plant i ddarllen? (WAQ24521)

**Jane Davidson:** Mae dysgu darllen yn elfen allweddol o'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer y Saesneg yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 1, lle bo plant o fewn yr ystod oedran o bump i saith fel arfer, dywed y cwricwlwm cenedlaethol y dylid dysgu confensiynau sylfaenol argraffu a llyfrau i'r disgyblion fel eu bod yn gallu darllen yn rhugl, yn gywir, gan ddeall yr hyn y maent yn ei ddarllen a'i fwynhau. Mae'r Gorchymyn statudol ar gyfer y Saesneg yn cadarnhau y dylid dysgu sgiliau darllen o fewn rhaglen astudio gytbwys a chydlynol, sy'n cynnwys:

- gwybodaeth ffonig, yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng symbolau wedi'u hargraffu a phatrymau sain;
- gwybodaeth graffig, yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei ddysgu am ystyron geiriau a rhannau geiriau o batrymau llythrennau cyson;
- adnabod geiriau, yn canolbwyntio ar ddatblygu geirfa o eiriau sy'n cael eu hadnabod a'u deall yn awtomataidd ac yn gyflym; a
- gwybodaeth ramadegol, yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff iaith ei gosod a'i threfnu yn frawddegau (cystrawen).

Parheir â'r rhaglen hon yng nghyfnod allweddol 2 gyda gwybodaeth ffonig a graffig yn cael ei hymestyn i gynnwys patrymau mwy cymhleth a ffurfiau afreolaidd. Mater i'r ysgolion, gan weithio gyda'r awdurdodau addysg lleol, yw penderfynu ar y dulliau i'w defnyddio a'r adnoddau priodol er mwyn gweithredu'r rhaglenni astudio ym mhob cyfnod allweddol.

Yn y Gorchymyn statudol ar gyfer y Gymraeg, mae'r ystod gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn ddigon tebyg ar gyfer disgyblion sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Yn arbennig, mae'r rhaglen astudio sy'n ymdrin â darllen yng nghyfnod allweddol 1 yn cynnwys gwybodaeth ffonig, gyda disgyblion yn cael eu dysgu i werthfawrogi'r berthynas rhwng symbolau wedi'u hargraffu a phatrymau sain.

Un elfen o sgil mwy cyffredinol llythrennedd yw darllen, ac mae pob awdurdod addysg lleol wedi sefydlu strategaethau i godi safonau yn y sgil sylfaenol hwn. Mae strategaethau o'r fath yn cydnabod bod pob pwnc yn darparu cyfleoedd i wella llythrennedd. Ceir cymorth i roi strategaethau llythrennedd lleol ar waith drwy raglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant Llywodraeth y Cynulliad a chaiff hyn ei ategu gan y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i weithredu'r strategaeth sgiliau sylfaenol genedlaethol i Gymru.

## Ysgolion Ffydd yng Nghymru

**David Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chynrychiolwyr ysgolion ffydd yng Nghymru ynghylch yr hyn y maent ei angen oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ24522)

**Jane Davidson:** Cyfarfûm â’r esgobion pabyddol a chyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg Babyddol ym mis Ebrill 2002.

Mae fy rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd yn cynnwys cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a’r Eglwys Babyddol gyda’i gilydd yn flynyddol. Ar gyfer 2003, yr wyf wedi cytuno i fynd i un o’u cyd-gyfarfodydd rheolaidd ar 10 Tachwedd.

### Y Sector Addysg Annibynnol

**David Davies:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael â chynrychiolwyr y sector addysg annibynnol yng Nghymru ynghylch yr hyn y maent ei angen oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ24523)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi cwrdd â Chyngor yr Ysgolion Annibynnol a thrafod ei gyfraniad i’r sector addysg yng Nghymru. Mae Cofrestrydd Ysgolion Annibynnol Cymru yn cwrdd yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr Cyngor yr Ysgolion Annibynnol ar fy rhan i drafod materion sy’n effeithio arno. Yn ogystal, mae Estyn wedi sefydlu fforwm ysgolion annibynnol yn ddiweddar sy’n ystyried materion yn ymwneud â’r gyfundrefn arolygu berthnasol a gwahoddir pob ysgol o’r fath i’r fforwm hwn.

### Ysgolion Annibynnol

**David Davies:** Faint o ymweliadau a wnaed gan y Gweinidog ag ysgolion annibynnol yng Nghymru? (WAQ24524)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi ymweld â dwy ysgol annibynnol yng Nghymru, sef ysgol Nant-y-Cwm Steiner, Sir Benfro, ac ysgol Howells, Sir Ddinbych.

### Cwmnïau Gyrfa Cymru (Pensiynau)

**David Davies:** Faint o arian y bu’n rhaid i bob cwmni Gyrfa Cymru ei neilltuo i dalu am ddiffygion mewn cronfeydd pensiynau? (WAQ24525)

**Jane Davidson:** O’r cyfrifon cwmni a gyflwynwyd am 2001-02, yr oedd cyfrifon pump o’r saith Cwmni Gyrfa yn cynnwys nodyn datgelu atebolrwydd am y gronfa bensiynau. Dyma’r pump:

| Cwmni Gyrfa Cymru | Diffyg a ddatgelwyd |
|---|---|
| Gwent | £800,000 |
| Caerdydd a’r Fro | £550,000 |

| | |
|---|---|
| Y Gorllewin | £500,000 |
| Powys | £610,000 |
| Y Gogledd Orllewin | £345,000 |

Fodd bynnag, ni chodwyd unrhyw faterion sy’n peri pryder yn adroddiadau’r archwilwyr am gyfrifon yr un o’r cwmnïau am 2001-02.

Yr effaith a gafwyd ar y cwmnïau yn syth oedd eu bod yn talu cyfraniadau cyflogwr ar gyfradd uwch er mwyn cryfhau mantolenni’r cronfeydd pensiynau. Mae’r cwmnïau wedi llwyddo i dalu’r cyfraniadau uwch hyn o’u hincwm yn 2003-04. Ni fydd effaith tymor hwy y newidiadau i’r safonau cyfrifydda ar gwmnïau Gyrfa Cymru, fel ar bob cwmni sy’n cynnal cynlluniau pensiwn, yn hysbys hyd nes y caiff safon adrodd ariannol 17 ei gweithredu yng nghyswllt cyfnodau cyfrifydda sy’n gorffen ar ôl 1 Ionawr 2005, sef yr amserlen sy’n gael ei hawgrymu ar hyn o bryd yn sgîl gohirio gweithredu’ r safon.

**Cwmnïau Gyrfa Cymru (Costau Sefydlu)**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl sy’n dangos cost sefydlu pob cwmni Gyrfa Cymru gan gynnwys cost a) newid arwyddion, b) newid logo, c) sefydlu canolfannau galw? (WAQ24526)

**Jane Davidson:** Yr oedd y cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant yn argymell y dylai Gyrfa Cymru, y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaol cenedlaethol cyntaf i bob oedran yn y DU, adeiladu ar strwythur y cwmnïau Gwasanaeth Gyrfa a oedd yn bodoli yng Nghymru ar y pryd a pheidio ag ychwanegu haen newydd o fiwrocratiaeth drwy hynny. Fel rhan o’r paratoi ar gyfer lansio Gyrfa Cymru, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ryw £150,000 o gyfanswm o £200,000 (y gweddill yn cael ei ddarparu o gronfeydd wrth gefn y cwmnïau) i dalu costau dylunio logo Gyrfa Cymru a chanllawiau arddull, newid arwyddion y 60 a mwy o swyddfeydd a chanolfannau cynghori wyneb siop ar draws Cymru, darparu argraffiad cychwynnol o ddeunyddiau ysgrifennu hanfodol a chostau lansio Gyrfa Cymru. Er mwyn sichrau’r arbedion maint mwyaf posibl drwy gyd-brynu, cafodd y costau eu talu ar sail consortiwm ac nid oes costau i’r cwmnïau unigol ar gael felly. O ran canolfannau galwadau learndirect, y prif gostau yw cyflogi staff, casglu gwybodaeth oddi wrth ddarparwyr addysg a hyfforddiant i greu cronfa ddata o gyfleoedd dysgu, adeiladau, teleffoni a TG. Derbyniodd cwmnïau Gyrfa Cymru y symiau canlynol yn 2001-02 i ddarparu gwasanaeth llinell gymorth a gwybodaeth learndirect yn ystod y flwyddyn gontract:

| **Cwmni Gyrfa Cymru** | **Dyraniad Adnoddau** |
|---|---|
| Caerdydd a’r Fro | £300,000 |

| | |
|---|---|
| Y Gorllewin | £150,000 |
| Y Gogledd Orllewin | £150,000 |
| Powys | £150,000 |

## Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig yn Sir Fynwy

**David Davies:** A all y Gweinidog ddweud faint o blant ag anghenion addysgol arbennig oedd yn Sir Fynwy ac yng Nghymru yn 2002, 2001 a 2000? (WAQ24651)

**Jane Davidson:** Mae nifer y plant ag anghenion addysgol arbennig yn Sir Fynwy ac yng Nghymru yn 1999-2000, 2000-01 a 2001-02 fel a ganlyn:

| | 1999-2000 | 2000-01 | 2001-02 |
|---|---|---|---|
| Sir Fynwy | 472 | 476 | 491 |
| Cymru | 17,154 | 17,415 | 17,118 |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

## Caws Cymru (Llaeth wedi'i Fewnforio)

**David Davies:** Pa ganran o'r llaeth a ddefnyddir i gynhyrchu caws Cymru sydd wedi'i fewnforio? (WAQ24246)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae yna broses gydbwyso wrth symud llaeth i mewn ac allan o Gymru o weddill y DU at ddibenion potelu a phrosesu, yn dibynnu ar y cyflenwad llaeth sydd ar gael, y gallu prosesu a phrisiau llaeth. Ceir adegau pan fo'r cyflenwad llaeth hylif yng Nghymru yn fwy na gallu prosesu a photelu llaethdai Cymru ac mae'r llaeth hylif sydd dros ben yn cael ei anfon i gyfleusterau yn Lloegr. Yn yr un modd, ceir adegau yn ystod y flwyddyn pan nad yw'r cyflenwad llaeth yn ddigonol i ateb y galw o du llaethdai Cymru a chaiff llaeth ei gludo i Gymru o Loegr i ateb y galw hwn. Nid oes ffigurau ar gael yn hwylus i ddangos am faint o laeth yr ydym yn son yn y broses gydbwyso hon.

O ran llaeth yn cael ei fewnforio o'r tu allan i'r DU i gael ei ddefnyddio i gynhyrchu caws o Gymru,

dywedir wrthyf nad oes unrhyw laeth yn cael ei fewnforio i Gymru i'r diben hwn.

## Cyrsiau Amaethyddol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddogfen ELWa sy'n awgrymu y bydd rhai cyrsiau amaethyddol yn cael eu darparu mewn dau goleg yn unig yn hytrach na'r pum coleg presennol? (WAQ24436)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gefnogi'r galw am i'r cyrsiau amaethyddol a gynhwysir yn nogfen ddiweddar ELWa barhau i gael eu cynnig yn y pum coleg presennol, yn hytrach na'r ddau goleg a awgrymir? (WAQ24437)

**Carwyn Jones:** Mae darparu hyfforddiant amaethyddol a hyfforddiant sy'n seiliedig ar y tir yng Nghymru wedi bod yn destun ymgynghoriad gan y Cyngor Cenedlaethol—ELWa, ac mae newydd ddod i ben. Bydd unrhyw gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth hon a awgrymir gan y cyngor yn sgîl hynny yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru maes o law.

## Sylwadau ar Gyrsiau Amaethyddol

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael mewn perthynas â dogfen ELWa sy'n awgrymu y bydd rhai cyrsiau amaethyddol yn cael eu darparu mewn dau goleg yn hytrach na'r pum coleg presennol? (WAQ24438)

**Carwyn Jones:** Dim.

## Gorsaf Ynni Niwclear Trawsfynydd (Amserlen Dadgomisiynu)

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer dadgomisiynu gorsaf ynni niwclear Trawsfynydd? (WAQ24492) [W]

**Carwyn Jones:** Nid oes amserlen wedi ei bennu ar hyn o bryd. Wedi i'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear gael ei sefydlu, bydd yn edrych ar bob safle ar sail teilyngdod. Bydd yn ymgynghori â rheoleiddwyr y diwydiant niwclear a rhanddeiliaid lleol cyn gwneud unrhyw benderfyniad i newid trefniadau rheoli'r safle.

## Gorsaf Ynni Niwclear Trawsfynydd (Archwiliad ar Ddadgomisiynu)

**Alun Ffred Jones:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi adroddiad yn dilyn yr archwiliad ar ddadgomisiynu gorsaf ynni niwclear Trawsfynydd? (WAQ24493) [W]

**Carwyn Jones:** Ydw. Pan fydd y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio wedi gwneud penderfyniad ar

gais Trawsfynydd, caiff adroddiad yr Arolygydd ei gyhoeddi ynghyd â llythyr yn nodi'r penderfyniad. Mae hyn yn rhan o strategaeth ddadgomisiynu ar gyfer y cyn orsaf niwclear.

## Cael Gwared ar Wastraff Peryglus

**Mick Bates:** Pa ohebiaeth y mae'r Gweinidog wedi'i chael gyda'r diwydiant gwaredu gwastraff ynghylch y prinder cyfleusterau yng Nghymru yn y dyfodol ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus yn ddiogel? (WAQ24494)

**Mick Bates:** Pa ohebiaeth y mae'r Gweinidog wedi'i chael gyda'r diwydiant gwaredu gwastraff ynghylch yr effaith economaidd ar Gymru o ddod â'r arfer o waredu gwastraff ar y cyd i ben? (WAQ24495)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi sefydlu gweithgor gwastraff peryglus yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth o blith pob un o'r prif grwpiau rhanddeiliaid. Mae cynllun gweithredu yn cael ei lunio gan y grwp, a disgwylir iddo gael ei gyflwyno i Fforwm Gwastraff Cymru i gael ei ystyried.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi nifer o daflenni am y gyfarwyddeb tirlenwi, wedi'u hanelu at gynhyrchwyr a gweithredwyr, sy'n egluro goblygiadau'r gyfarwyddeb tirlenwi. Er mwyn adeiladu ar hyn, gwahoddwyd pob gweithredwr gwastraff a phob awdurdod lleol i semniarau rhad ac am ddim am y gyfarwyddeb tirlenwi oedd yn ystyried y goblygiadau ariannol i'r diwydiant. Yr oedd cynhyrchwyr gwastraff hefyd yn bresennol yn y seminarau hyn. Cynhaliwyd chwe seminar ar hyd a lled Cymru rhwng 2001 a 2002.

## Hawl Cerbydau i Deithio ar Dir Comin

**Sandy Mewies:** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu dwyn ymlaen reoliadau ynghylch hawl cerbydau i deithio ar draws tir comin fel a ganiateir o dan adran 2 (d) o Orchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001/1410? (WAQ24496)

**Carwyn Jones:** Bydd y swyddogion yn rhoi cyngor i mi yn fuan ynglyn â'r ffordd ymlaen gyda'r rheoliadau arfaethedig hyn a, chyn gynted ag y byddaf wedi ystyried y cyngor hwnnw, byddaf mewn gwell sefyllfa i roi gwybod ichi beth fydd yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau.

## Cais Cynllunio Island Farm

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r cyngor a gafodd y Prif Weinidog gan swyddogion ac a ddefnyddiwyd i benderfynu peidio â galw cais cynllunio Island Farm i mewn? (WAQ24510) [R]

**Alun Cairns:** Pa gyngor a gafodd y Prif Weinidog gan swyddogion mewn perthynas â'r penderfyniad i 'alw i mewn' neu beidio, gais cynllunio Island Farm, a oedd yn ymgorffori academi arfaethedig Undeb

Rygbi Cymru? (WAQ24511) [R]

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau mwy o dryloywder o ran sut y mae Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau, a dyna pam, yn ddiweddarach eleni, y byddwn yn cyhoeddi'r ffeithiau a'r dadansoddiad ffeithiol y seilir penderfyniadau gweinidogol arnynt.

Credwn ei bod yn briodol i'r swyddogion roi cyngor i'r Gweinidogion fel mater o drefn ac y dylai'r cyngor uniongyrchol hwnnw, fel arfer, aros yn gyfrinachol. Serch hynny, yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried pa un a ellir rhoi'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio ichi mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yng Nghod Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth a'r Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto erbyn 16 Mehefin, pan fyddaf wedi cael cyngor pellach ynglyn â'r mater hwn.

## Tir Gofal

**Mark Isherwood:** Beth oedd cyllideb y cronfeydd a oedd ar gael ar gyfer taliadau i ffermwyr o dan y cynllun Tir Gofal ar gyfer 2002-03, a faint o hyn a dalwyd mewn gwirionedd i ffermwyr yn 2002-03? (WAQ24513)

**Carwyn Jones:** Y gyllideb a oedd ar gael i Tir Gofal yn 2002-03 (gydag opsiwn i gael £1.5 miliwn ychwanegol pe bai angen) oedd £11.9 miliwn, ac mae'r ffigurau dros dro ar gyfer diwedd y flwyddyn yn dangos bod £11.1 miliwn wedi'i dalu i Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

## Cyswllt Ffermio

**Mark Isherwood:** Beth oedd cyllideb y cronfeydd a oedd ar gael ar gyfer taliadau i ffermwyr o dan y Cynllun Cyswllt Ffermio ar gyfer 2002-03, a faint o hyn a dalwyd mewn gwirionedd i ffermwyr yn 2002-03? (WAQ24514)

**Carwyn Jones:** Mae cyllideb o dros £15 miliwn ar gyfer grantiau cyfalaf wedi bod ar gael i ffermwyr ers i Cyswllt Ffermio gael ei roi ar waith ym mis Medi 2001. Talwyd grantiau gwerth dros £1.9 miliwn i ffermwyr yn 2002-03. Mae £4.3 miliwn pellach wedi cael ei rwymo. Mae gan ffermwyr ddwy flynedd o'r adeg y cymeradwyir grant i gwblhau eu prosiect a chyflwyno hawliad am y cyllid.

Gellir gwneud ceisiadau grant Cyswllt Ffermio ar ôl i gynllun datblygu busnes fferm gael ei gwblhau gan ymgynghorydd achrededig. Bu rhywfaint o oedi ar y dechrau yn darparu'r gwasanaeth cynlluniau datblygu busnes fferm oherwydd sgîl-effeithiau argyfwng clwy'r traed a'r genau a'r galw enfawr o du ffermwyr am Cyswllt Ffermio. Effeithiodd y ffactorau hyn yn eu tro ar y ceisiadau am grant.

Cyflwynwyd trefniadau newydd i fynd i'r afael â'r problemau hyn a chyflymu proses y cynlluniau

datblygu busnes fferm. Maent yn cynnwys darparu ymweliad diagnostig 1.5 diwrnod sy’n caniatáu i fusnesau hyfyw fwrw ymlaen â’u cynlluniau yn fwy cyflym a, gydag achosion mwy cymhleth, mae’n golygu bod modd dod â chyngor arbenigol i mewn yn gynharach yn y broses. Mae’r contract rhwng Awdurdod Datblygu Cymru a’r ymgynghorwyr Cyswllt Ffermio wedi cael ei adolygu er mwyn annog rhagor ohonynt i ymgymryd â’r maes gwaith holl-bwysig hwn.

Cymerwyd camau hefyd i gyflymu’r system talu grantiau. Mae’r swyddogion yn ymdrechu’n barhaus i wella a symleiddio’r broses o ymgeisio am grant gwella ffermydd/grant mentrau fferm fel bod modd talu’r grantiau, yn enwedig ar gyfer y prosiectau hynny lle mae angen symiau cymharol fach i wneud gwelliannau ar y fferm, yn fwy cyflym.

O ganlyniad i’r gwelliannau hyn, mae’r gwariant ar grantiau cyfalaf Cymorth Ffermio bellach yn unol â’r targed a disgwyliaf i’r arian sydd ar gael gael ei rwymo’n llwyr o fewn oes prosiect Amcan 1.

## Cymorth Organig

**Mark Isherwood:** Beth oedd cyllideb y cronfeydd a oedd ar gael ar gyfer taliadau i ffermwyr o dan y Cynllun Cymorth Organig ar gyfer 2002-03, a faint o hyn a dalwyd mewn gwirionedd i ffermwyr yn 2002-03? (WAQ24515)

**Carwyn Jones:** Cafodd y cynllun cymorth organig ei ddisodli gan y cynllun ffermio organig ym mis Hydref 1999. Mae gan y cynllun ffermio organig gyllideb o £2.9 miliwn, a thalwyd rhyw £2.5 miliwn o’r arian hwn i ffermwyr yn 2002-03.

## Cais Cynllunio Island Farm

**Peter Black:** Pa ymateb a roes Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad i’r ymgynghoriadau ar y ddau gais i adeiladu Canolfan Ragoriaeth Rygbi a datblygiad cysylltiedig ar dir amaethyddol gradd dau yn Island Farm, Pen-y-bont ar Ogwr? (WAQ24516)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi amgáu copiau o’r llythyrau a anfonwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at Gyngor Bwrdeitref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 7 Hydref 2002 a 30 Ionawr 2003.

Yr wyf yn amgáu copïau o’r llythyrau er gwybodaeth ichi.

## Mesurau Atal Llifogydd Arfaethedig ar Gyfer yr Wyddgrug

**Mark Isherwood:** A all y Gweinidog roi adroddiad i mi ar hynt y mesurau atal llifogydd arfaethedig ar gyfer yr Wyddgrug? (WAQ24562)

**Carwyn Jones:** Yn dilyn y llifogydd ym mis Hydref a mis Tachwedd 2002, comisiynodd Asiantaeth yr

Amgylchedd, sef yr awdurdod sy’n gyfrifol am yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn yr Wyddgrug, astudiaethau i asesu gwahanol opsiynau o wella’r amddiffynfeydd rhag llifogydd i gymunedau yn nalgylch afon Alyn, sy’n cynnwys yr Wyddgrug.

Bu’r astudiaethau yn destyn trafod rhwng staff Asiantaeth yr Amgylchedd a staff Llywodraeth Cynulliad Cymru ac, o ganlyniad, mae’r asiantaeth wrthi ar hyn o bryd yn adolygu’r arfarniad economaidd o gynllun ar gyfer yr Wyddgrug yng ngoleuni canllawiau sydd newydd eu cyhoeddi. Disgwylir canlyniadau’r asesiad hwnnw o fewn yr wythnosau nesaf. Mater i Bwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Afonydd Dyfrdwy a Chlwyd fydd penderfynu bwrw ymlaen â’r cynllun, yn wyneb blaenoriaethau cystadleuol, ac mae’n debygol y bydd cymorth grant ar gael oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad os caiff cynnig cost effeithiol ei ddatblygu. Ceir gwybodaeth bellach oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd.

### Cludo Ceffylau ac Asynnod i’w Lladd

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau sy’n cael eu cymryd yng Nghymru i roi cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar waith ar gyfer cludo ceffylau ac asynnod i’w lladd? (WAQ25684)

**Carwyn Jones:** Nid yw’r Comisiwn Ewropeaidd eto wedi cyhoeddi cynigion ynglyn â chludo anifeiliaid dros bellteroedd maith, yn enwedig y rheini sydd i’w defnyddio at ddibenion cynhyrchu bwyd, i sicrhau nad yw lles yr anifail yn dioddef. Pan gyhoeddir hwy byddant yn adlewyrchu ymgynghoriad ar draws y Gymuned Ewropeaidd gyfan ynglyn â symud anifeiliaid.

### Diogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

**Owen John Thomas:** Beth y mae’r Gweinidog yn ei wneud i hybu a diogelu safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig? (WAQ25688)

**Carwyn Jones:** Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gweithio ar ein rhan mewn partneriaeth â thirfeddianwyr, awdurdodau lleol ac eraill i hyrwyddo’r rheolaeth bositif sy’n angenrheidiol er mwyn amddiffyn safleoddd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, gan gynnwys gwaith drwy gynllun Tir Gofal. Yn 2001, cynyddodd lefel yr amddiffyniad a roddir i safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig oherwydd Rhan III Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a darparodd fecanweithiau fel bod cyrff cyhoeddus yn gallu ystyried safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig mewn perthynas â’u dyletswyddau hwy. Mae’r cyngor cefn gwlad hefyd wedi sicrhau secondiad dau swyddog cyswllt bywyd gwyllt gyda’r heddlu, ac maent yn darparu cymorth proffesiynol er mwyn helpu gwarchod safleodd o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

### Ffatri Wafferi LG

**Michael German:** A all y Gweinidog ddweud lle yn y gyllideb y mae'r symiau o gymorth grant a gafodd eu cadw wrth gefn rhag ofn y byddai ffatri wafferi LG yn mynd rhagddi? (WAQ24471)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Gwnaed darpariaeth yn y gyllideb yn wreiddiol ar gyfer yr ymrwymiad i'r prosiect hwn ond, pan ddaeth i'r amlwg na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo fel a gynlluniwyd, cafodd yr arian ei ddyrannu i flaenoriaethau eraill.

## Ffatri Wafferi LG

**Michael German:** A all y Gweinidog ddweud faint o gymorth grant a gadwyd wrth gefn yn y gyllideb rhag ofn y byddai ffatri wafferi LG, yng Nghasnewydd, yn mynd rhagddi ac a yw'r arian hwn yn awr wedi'i ddyrannu i linell ariannu benodol yn ei chyllideb? (WAQ24472)

**Sue Essex:** Cynigiwyd £117.5 miliwn i ffatri wafferi LG, er nad yw manylion taliadau i gwmnïau unigol yn cael eu rhyddhau am resymau cyfrinachedd masnachol. Cafodd yr arian hwn ei ailddyrannu pan ddaeth yn hysbys nad oedd y prosiect yn debygol o fynd yn ei flaen.

## Adeilad Newydd y Cynulliad

**David Davies:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyflwyno rhagor o gynigion gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ddyfodol adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ24489)

**Sue Essex:** Oes. Rhagwelaf y bydd hyn cyn gwyliau'r haf eleni.

# Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Caws Cymru (Llaeth wedi'i Fewnforio)

**David Davies:** Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod y llaeth wedi'i fewnforio sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu caws Cymru yn bodloni safonau iechyd Prydain? (WAQ24247)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae'r safonau hylendid a gymhwysir i gynhyrchu llaeth wedi'u cynnwys yng nghyfarwyddebau'r UE, sy'n rhwymo ar draws yr UE. Cyfrifoldeb aelod wladwriaethau yw gorfodi'r safonau hyn, ac mae arolygwyr Swyddfa Fwyd a Milfeddygaeth y comisiwn yn ymweld â hwy i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Nid yw llaeth sydd wedi cael ei gynhyrchu yn yr UE yn cael ei archwilio ar y ffiniau, gan ei fod yn cael cylchredeg yn ddirwystr o dan reolau'r farchnad sengl. Rhaid i wledydd eraill sy'n dymuno allforio llaeth i'r UE ddangos iddo gael ei gynhyrchu yn unol â safonau sy'n cyfateb i'r rhai a arddelir o fewn yr UE. Megis gyda phob cynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid, rhaid i laeth sy'n dod i mewn i'r DU o wledydd o'r tu allan i'r UE

ddod i mewn drwy safleoedd archwilio dynodedig ar ffiniau'r DU er mwyn cael archwiliad milfeddygol. Mae'r dogfennau sydd gyda'r llwythi, ynghyd â'u tarddiad, yn cael eu gwirio, gyda lefelau penodedig ychwanegol o archwiliadau corfforol. Mae'r archwiliadau hyn yn sicrhau y cedwir at yr amodau mewnforio.

## Gwasanaethau Lymphoedema

**David Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddarparu gwasanaeth lymphoedema cynhwysfawr yn y De? (WAQ24243)

**David Davies:** Pa wasanaethau sydd ar gael i'r bobl yn y De sy'n dioddef o lymphoedema primaidd? (WAQ24244)

**Jane Hutt:** Mater i'r byrddau iechyd lleol yw darparu gwasanaethau lymphoedema.

Mae'r buddsoddi mewn gwasanaethau lymphoedema eilaidd yn Ysbyty Felindre wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, er na fu buddsoddi cyffelyb mewn gwasanaethau ar gyfer cleifion lymphoedema sylfaenol, sydd wedi golygu mai prin yw'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol. Darlun cyffelyb a geir ar draws Cymru.

Yr wyf yn cydnabod yr angen i gyflenwi gwasanaethau lymphoedema mewn modd mwy cyfartal yn y dyfodol. Mae cymdeithas gwasanaethau lymphoedema Cymru wedi mynd ati i asesu a gwerthuso'r angen am y gwasanaeth, a bydd yn cyflwyno tystiolaeth i gomisiynwyr gwasanaethau cyn bo hir ynglyn â darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Yn ogystal, argymhellodd rhwydwaith canser de-ddwyrain Cymru y llynedd welliannau i'r gwasanaethau presennol ac y dylid datblygu gwasanaethau lymphoedema ar gyfer y ddau ffurf ar y cyflwr fel un gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r grwp cydlynu gwasanaethau canser wrthi ar hyn o bryd yn ystyried darpariaeth y gwasanaethau ar gyfer y dyfodol ar lefel Cymru gyfan, mae wedi adolygu'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes ac mae yn y broses o sefydlu gweithdy o ddarparwyr gwasanaethau lymphoedema ar draws Cymru i ailwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol. Bydd cynrychiolaeth o'r byrddau iechyd lleol o bob rhan o Gymru yn elfen hanfodol o'r gweithdy hwn, o ystyried mai'r byrddau sydd bellach yn comisiynu'r gwasanaethau hyn.

Yr wyf yn obeithiol y bydd y gwaith hwn yn arwain at dargedu mwy o adnoddau tuag at wasanaethau lymphoedema sy'n gysylltiedig â chanser a lymphoedema nad oes a wnelo â chanser.

## Nyrsiau Sglerosis Ymledol

**Nick Bourne:** Sawl nyrs sglerosis ymledol sydd yng Nghymru, ac ym mhle y maent? (WAQ24425)

**Nick Bourne:** Sawl nyrs sglerosis ymledol sydd yn ardal Caerdydd? (WAQ24426)

**Nick Bourne:** Sawl nyrs sglerosis ymledol sydd yn gwasanaethu ardal de Cymru? (WAQ24427)

**Jane Hutt:** Ni chedwir y wybodaeth a geisir yn ganolog. Yr ydym yn casglu data am staff nyrsio fesul maes gwaith, ond nid yw’r data mor fanwl fel iddynt ddangos y staff nyrsio ar gyfer cyflyrau penodol.

## Argaeledd Beta Interferon

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y graddau y mae beta interferon ar gael i gleifion sy’n byw yng Nghymru? (WAQ24428)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, mae tua 200 o gleifion yn cael eu trin â beta interferon ar draws Cymru. Ym mis Chwefror y llynedd, cyhoeddasom y ‘cynllun rhannu risg’ y cytunwyd arno gyda gwneuthurwyr triniaethau cyfaddasu ar gyfer y clefyd sglerosis ymledol (gan gynnwys beta interferon) i gyflenwi’r cyffuriau hyn i gleifion o dan y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae’r cynllun yn golygu monitro carfan o gleifion yn fanwl er mwyn cadarnhau effeithiolrwydd cost y triniaethau, ac mae wedi deillio o ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol. Mae cymdeithas niwrolegwyr Prydain, y gymdeithas sglerosis ymledol, yr ymddiriedolaeth sglerosis ymledol, cymdeithas nyrsys arbenigol sglerosis ymledol y DU a’r Coleg Nyrsio Brenhinol oll yn cefnogi’r trefniadau.

Mae fy swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr y proffesiwn, y byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau’r GIG a’r gymdeithas sglerosis ymledol i drafod hynt y cynllun rhannu risg ledled Cymru. Os oes unrhyw gynigion buddsoddi manwl, a oedd yn rhan o’r cynllun a luniwyd gan yr ymddiriedolaethau a’r canolfannau arbenigol, heb eu gweithredu eto, cytunwyd y dylid penderfynu’n derfynol arnynt yn y dyfodol agos iawn.

## Treialu Canabis (Cleifion sy’n Dioddef o Sglerosis Ymledol)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau treialu canabis a gynhelir yng Nghymru, ar ffurf tabledi a chwistrellwyr trwyn, ar gyfer cleifion yng Nghymru sy’n dioddef o sglerosis ymledol? (WAQ24429)

**Jane Hutt:** Credaf i dreial bach, gan ddefnyddio canabis mewn cleifion sy’n dioddef o sglerosis ymledol, gael ei gynnal yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro dros flwyddyn yn ôl. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dreialon pellach yn defnyddio canabis yng Nghymru.

## Gofal Di-dâl yn y Cartref

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog egluro a ydyw’n bwriadu cyflwyno gofal di-dâl yn y cartref i bobl hyn yn ystod tymor y Cynulliad presennol? (WAQ24431)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi cyhoeddi canllawiau statudol i'r awdurdodau lleol ar godi tâl tecach am ofal yn y cartref. Maent yn eithrio'r sawl sydd ag incwm sy'n cyfateb i lefelau sylfaenol cymhorthdal incwm, a 25 y cant ar ben hynny, rhag gorfod talu. Maent hefyd yn cyflwyno darpariaeth anwybyddu enillion, ac yn sicrhau bod y terfynau cyfalaf o leiaf yr un mor hael ag i'r sawl sydd mewn cartrefi gofal.

Addewid ein maniffesto oedd dileu'r taliadau am wasanaethau gofal yn y cartref i bobl anabl, ac yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ffyrdd o weithredu'r polisi hwnnw.

### Achos Dr Huw Llewelyn

**Rhodri Glyn Thomas:** A fydd y Gweinidog yn cynnal ymchwiliad i achos Dr Huw Llewelyn? (WAQ24469)

**Jane Hutt:** Mater i Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin yw hwn yn ei hanfod. Mae gan yr ymddiriedolaeth ddyletswydd i amddiffyn ei chleifion a chyflawni ei chyfrifoldebau o ran llywodraethu clinigol. Mater i'r ymddiriedolaeth a'r unigolyn dan sylw yw disgyblu.

### Gwelyau Gofal Dwys i Blant y Gogledd

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarparu gwelyau gofal dwys i blant yng ngogledd Cymru? (WAQ24512)

**Jane Hutt:** Darperir gwelyau gofal dwys i blant yng ngogledd Cymru gan Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

### Gwasanaethau Syndrom Blinder Cronig/Myalgic Encephalomyelitis yn y Gogledd

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau i bobl â syndrom blinder cronig/myalgic encephalomyelitis yn y Gogledd? (WAQ24554)

**Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i agor canolfan ragoriaeth yn y Gogledd i arwain y gwaith o ddatblygu gwasanaethau a gwella gwasanaethau gofal clinigol ar gyfer pobl â syndrom blinder cronig/myalgic encephalomyelitis yn y Gogledd? (WAQ24555)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw darparu pob gwasanaeth iechyd, gan gynnwys syndrom blinder cronig/myalgic encephalomyelitis. Mater iddynt hwy yw penderfynu lefel y gwasanaethau, ar ôl pwyso a mesur llu anghenion dybryd yr ardal. Nid yw'r rhain yn benderfyniadau hawdd i'w gwneud, ond y byrddau iechyd lleol, gyda'u gwybodaeth leol, sydd yn y sefyllfa orau i flaenoriaethu'r gwasanaethau y mae ar bobl yn eu hardal eu hangen. Byddwn yn disgwyl iddynt weithio gyda'u partneriaid i gynllunio a blaenoriaethu eu gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth leol.

## Adroddiad ar Syndrom Blinder Cronig/Myalgic Encephalomyelitis

**Ann Jones:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog â swyddogion yr Adran Iechyd ynghylch adroddiad ei gweithgor annibynnol ar syndrom blinder cronig/myalgic encephalomyelitis, a gyhoeddwyd ar 11 Ionawr 2002, a'i berthnasedd i Gymru? (WAQ24556)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ymwybodol o'r adroddiad a bydd fy swyddogion yn ei ddadansoddi'n fwy manwl cyn bo hir. Bydd yn rhaid i'r Cynulliad yr adroddiad hwn yn ofalus wrth ddatblygu polisi i Gymru, ynghyd ag adroddiad y gweithgor annibynnol ar syndrom blinder cronig/myalgic encephalomyelitis a roddodd adroddiad i Brif Swyddog Meddygol Lloegr ym mis Ionawr 2002. Mae'r Adran Iechyd wedi comisiynu'r cyngor ymchwil meddygol i ddatblygu strategaeth fras i symud ymchwil y gwasanaethau biofeddygol a meddygol ar syndrom blinder cronig/myalgic encephalomyelitis yn ei flaen. Dylai adroddiad trefynol y grwp fod ar gael yn ystod y misoedd nesaf. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y ffordd ymlaen yng Nghymru, gan ystyried y corff sylweddol o ymchwil a ddarperir gan y tri adroddiad hwn.

## Therapyddion Lleferydd ac Iaith

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brinder y therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru a datgan beth mae'n ei wneud i annog pobl i ymuno â'r proffesiwn? (WAQ25695)

**Jane Hutt:** Fis Hydref diwethaf, cyhoeddais dargedau gweithlu ar gyfer 2010 ar sail yr anghenion staffio a nodwyd gan y GIG. Mae'r targed o 2,000 mwy o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cynnwys therapyddion iaith a lleferydd. Gosodwyd targedau ar gyfer ymddiriedolaethau unigol.

Mae nifer y lleoedd hyfforddiant therapi iaith a lleferydd a gomisiynir yng Nghymru wedi cynyddu gan 21 y cant er 1999. Comisiynodd y Cynulliad 33 o leoedd i fyfyrwyr yn 1999 a bydd yn cefnogi lle i 40 o fyfyrwyr yn 2003 i helpu diwallu'r angen a nodwyd gan yr ymddiriedolaethau ym mhroses flynyddol cynllunio'r gweithlu.

Ar 10 Chwefror 2003, dechreuodd ymgyrch ar gyfer denu gweithwyr mewn proffesiynau perthynol i iechyd yn ôl i'r gwaith, gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd sy'n dymuno dychwelyd i weithio yn GIG Cymru. Bydd y gweithwyr proffesiynol sy'n dychwelyd yn cael cymorth ar ffurf bwrsariaethau.

Mae ymgynghorydd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd y Cynulliad dros recriwtio a chadw yn gweithio gyda therapyddion iaith a lleferydd i ymdrin â'r problemau staffio cyfredol. Mae grwp gweithredu therapi iaith a lleferydd, sy'n cynnwys amryw o gynrychiolwyr rhanddeiliaid, wedi datblygu is-grwpiau i ymdrin â materion penodol yn ymwneud â recriwtio, cadw a hyfforddi therapyddion iaith a lleferydd ledled Cymru. Caiff canfyddiadau ac argymhellion yr is-grwpiau hyn eu hymgorffori mewn un ddogfen a gaiff ei thrafod mewn ymgynghoriad cenedlaethol sydd i'w gynnal yng Nghaerdydd y mis nesaf.

Bydd digwyddiadau sydd i'w cynnal yn ddiweddarach eleni, yn ystod wythnos agored y GIG, yn help i godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion o gyfleoedd gwaith yn y GIG yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Cyfiawnder Cymdeithasol yn Etholaeth Delyn

**Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yn etholaeth Delyn? (WAQ24288)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Byddaf yn adolygu'r polisïau a'r rhaglenni sy'n cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol.

### Cronfa Ymladd Troseddu

**Irene James:** A all y Gweinidog ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch y gronfa ymladd troseddu gwerth £100 miliwn? (WAQ24439)

**Edwina Hart:** Bydd y gronfa gwerth £100 miliwn i ymladd troseddu yn darparu cymorth dros y pedair blynedd rhwng 2003 a 2007 i ystod o gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn ymdrin â diogelwch yn y gymuned.

### Cronfa Ymladd Troseddu

**Carl Sergeant:** A all y Gweinidog ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch y gronfa ymladd troseddu gwerth £100 miliwn? (WAQ24440)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ24439.

### Lleoedd Preswyl yn achos Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol

**David Davies:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu ehangu nifer y lleoedd preswyl sy'n darparu gwasanaeth adsefydlu yn achos camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru? (WAQ24441)

**Edwina Hart:** Mae darparu lleoedd preswyl ychwanegol yng Nghymru er mwyn adsefydlu defnyddwyr cyffuriau ac alcohol yn rhan o'r adolygiad a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y llynedd. Mae'r gwaith ar yr adolygiad hwn bron iawn wedi'i gwbhau a byddaf yn ystyried y ffordd orau o ymdrin â'i ganfyddiadau maes o law.

## Grwp Cefnogi Tony Martin

**William Graham:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyfarfod â changen Caerfyrddin a gorllewin Cymru o grwp cefnogi Tony Martin? (WAQ24442)

**Edwina Hart:** Nid yw cangen Caerfyrddin a gorllewin Cymru o grwp cefnogi Tony Martin wedi cysylltu â mi ac nid oes gennyf gynlluniau i gwrdd â'r gangen.

## Strategaeth Adfywio

**William Graham:** Pa bryd fydd gan Gymru strategaeth gydlynus ar gyfer adfywio? (WAQ24443) [R]

**Edwina Hart:** Mae gennym ffordd gydlynus o ymdrin ag adfywio.

## Allgáu Cymdeithasol a Thlodi yn y Gymru Wledig

**Mick Bates:** Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac amddifadedd yng Nghymru wledig? (WAQ24444)

**Mick Bates:** Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru wledig? (WAQ24445)

**Edwina Hart:** Byddaf yn adolygu'r holl bolisïau a rhaglenni sy'n mynd i'r afael â thlodi, allgáu cymdeithasol ac amddifadedd ar draws Cymru.

## Camddefnyddio Cyffuriau yn y Rhondda

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu sefydliadau yn y gymuned sy'n mynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau yn y Rhondda? (WAQ24446)

**Edwina Hart:** Ar ben y £18 miliwn ychwanegol o adnoddau a gyhoeddwyd yng nghyllideb olaf y Cynulliad fis Tachwedd diwethaf ar gyfer y gyllideb ar gyfer mentrau cyffuriau ac alcohol, ar 26 Mawrth 2003, cyhoeddais £500,000 ychwanegol y flwyddyn i ariannu prosiect peilot i drin camddefnyddwyr sylweddau yn ardal y Rhondda. Mae mudiadau sy'n seiliedig yn y gymuned yn elfen allweddol o'r fenter hon a, chan weithio mewn partneriaeth â chyrff statudol, bydd yn cefnogi nifer o gynlluniau.

## Plismona Cymunedol Heddlu De Cymru yn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun peilot plismona cymunedol Heddlu De Cymru yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ24447)

**Edwina Hart:** Mae gan Heddlu De Cymru saith tîm yn cyflogi cyfansem o 35 heddwas yn gweithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ym Merthyr, Caerdydd, y Rhondda, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, pen uchaf Dyffryn Aman ac Abertawe. Hyd yma, mae’r timau wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau plismona cenedlaethol a lleol, ac mae hynny wedi arwain at ostyngiad mewn bwrglera tai a throseddau yn ymwneud â cherbydau a chyffuriau.

### Strategaethau Digartrefedd Lleol

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y llwyddiant a welwyd gan gynghorau lleol Cymru wrth lunio strategaeth ddigartrefedd lleol? (WAQ24448) [R]

**Edwina Hart:** Mae’r swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ymweld â’r holl awdurdodau lleol i ganfod pa gynnydd sy’n cael ei wneud tuag at lunio strategaethau digartrefedd lleol, a chynnig cyngor lle bo angen hynny.

### Adolygiad o’r Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

**Peter Black:** Pa bryd y mae’r Gweinidog yn rhagweld y bydd ei hadolygiad llawn o’r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn Nghymru yn cael ei gyhoeddi? (WAQ24449)

**Edwina Hart:** Mae’r gwaith o adolygu’r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru bron iawn â chael ei gwbhau. Byddaf yn cyflwyno canfyddiadau’r adroddiad i’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio maes o law.

### Mynegai Amlamddifadedd Cymru

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amserlen Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu fersiwn ddiweddar o fynegai amlamddifadedd Cymru? (WAQ24450)

**Edwina Hart:** Y bwriad ar hyn o bryd yw diweddaru mynegai amlamddifadedd Cymru fesul dau gam. Y cam cyntaf yw ymchwilio i’r opsiynau diweddaru, gan ystyried newidiadau o ran theori a’r data sydd ar gael. Bwriedir cynnal cam cyntaf y gwaith diweddaru ac ymgynghori yn ystod 2003.

### Undebau Credyd

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad yr undebau credyd yng Nghymru? (WAQ24451)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chymorth o du’r cronfeydd strwythurol, yn buddsoddi £3.5 miliwn i ddatblygu undebau credyd yng Nghymru. Maent yn bwrw ymlaen yn dda tuag at gwrdd â’r targed o 36,000 o aelodau. Mae’r aelodaeth yn 24,000 ar hyn o bryd, sy’n ddwbl ffigur y

llinell sylfaen. Mae benthyciadau a chynilion yr undebau credyd wedi cynyddu oddeutu 150 y cant ers dechrau'r prosiect.

## Y Sector Gwirfoddol

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** Ym mha ffordd y bydd rôl newydd y Gweinidog, fel y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yn effeithio ar y cysylltiadau â'r sector gwirfoddol? (WAQ24452)

**Edwina Hart:** Caiff y berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector gwirfoddol yng Nghymru ei llywodraethu gan gynllun sector gwirfoddol y Cynulliad. Yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 1998 mae'n ofynnol i'r cynllun gael ei adolygu yn y flwyddyn gyntaf ar ôl pob etholiad Cynulliad.

## Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru? (WAQ24453)

**Edwina Hart:** Bwriadaf fwrw ymlaen â'r gwaith y dechreuais arno pan ymgymerais â'r cyfrifoldeb am gamddefnyddio sylweddau yn Llywodraeth y Cynulliad diwethaf. Byddaf yn adolygu'r holl bolisïau a'r rhaglenni sy'n dod o fewn fy mhortffolio, gan gynnwys ymladd yn erbyn camddefnyddio sylweddau.

## Cynlluniau Peilot Cymunedau yn Gyntaf Heddlu De Cymru

**Leighton Andrews:** Beth yw cost cynlluniau peilot Cymunedau yn Gyntaf Heddlu De Cymru o ran arian cyhoeddus? (WAQ25693)

**Edwina Hart:** Nid y Cynulliad sy'n ariannu cynlluniau peilot Cymunedau yn Gyntaf Heddlu De Cymru.